## Nodyn Cynnig Diddymu Gorchymyn Rheolaeth Ansawdd Aer Brynbuga 2005

Yn dilyn gostyngiad llwyddiannus a pharhaus mewn llygredd aer yn Stryd y Bont yn Mrynbuga, ysgrifennwn i'ch hysbysu ein bod yn cynnig diddymu yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yno.

Nid yw hyn yn golygu y bydd monitro ansawdd aer yn dod i ben, ond mae'n golygu na fydd mwyach yn dangos ar chwiliadau fel AQMA, er enghraifft pan mae pobl yn brynu ac yn gwerthu eiddo yn yr ardal.


**Cefndir**

Cafodd AQMA Brynbuga ei ddatgan gan Gyngor Sir Fynwy ym mis Tachwedd 2005 oherwydd gormodiant o lefel amcan nitrogen deuocsid canolrif blynyddol o 40ug/m$^3$ (microgramau fesul metr ciwb) ar hyd A472 Stryd y Bont a rhannau o Castle Parade.

Cynhaliwyd monitro mewn chwe lleoliad ar hyd Stryd y Bont ers 2005, a thri lleoliad yn Woodside ers 2017 a sefydlwyd Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer a Grŵp Llywio Ansawdd Aer yn 2009 i gyfarch y materion oedd yn cyfrannu at y gormodiant o nitrogen deuocsid.

Ers 2012 daeth yn amlwg fod ansawdd aer yn gwella ac fel yn 2025 nid chafodd y lefel amcan o 40µg/m$^3$ (microgramau o nitrogen deuocsid fesul metr ciwb o aer amgylchynol) ei groesi am un mlynedd ar ddeg yn olynol.

**Ffigur 1 Ffin ardal rheoli ansawdd aer Brynbuga a lleoliadau monitro nitrogen deuocsid**




**Mae DEFRA a Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyngor i Awdurdodau Lleol fel sy'n dilyn:**

"Dylid ystyried diddymu AQMA yn dilyn tair blynedd yn olynol o gydymffurfiaeth, **10% yn is** na'r amcan perthnasol adeg y cysylltiad. Lle na fu unrhyw ormodiant am y pum mlynedd ddiwethaf, mae'n rhaid i awdurdodau lleol symud ymlaen gyda chynlluniau i ddiddymu'r AQMA. Mae Canllawiau Technegol LAQM 2022 yn glir yn hyn o beth:


"Ni ddylai fod unrhyw AQMA wedi ei ddatgan lle cafodd yr amcan perthnasol ei gyflawni ar ei gyfer am gyfnod o bum mlynedd yn olynol."

Oherwydd pandemig COVID-19, cafodd y "cyfnod o bum mlynedd yn olynol" dan 10% o lefel yr amcan (36µg/m$^3$) ei ymestyn i gyfnod o saith mlynedd i sicrhau nad oedd y gostyngiadau mawr mewn llygredd a ddigwyddodd yn 2020 yn newid yn dilyn y pandemig.

**Lefelau cyfredol ansawdd aer**

2024 oedd diwedd y cyfnod saith mlynedd hwnnw a dangosodd monitro na fu unrhyw leoliad yn uwch na 36µg/m$^3$ ers 2017 (saith mlynedd yn olynol) ac mae ansawdd aer wedi parhau i wella ers 2020, gyda blwyddyn calendr 2024 â'r crynoadau isaf mewn nitrogen deuocsid a gofnodwyd erioed. Roedd y crynhoad uchaf yn 2024 yn 21.4µg/m$^3$ sydd bron hanner lefel yr amcan ac yn ostyngiad o 20µg/m$^3$ dros ei grynhoad uchaf yn 2012. Dengys crynoadau rhagarweiniol 2025 fod crynoadau yn parhau'n debyg i 2024.

**Ffigur 3 – Crynoadau Cymedrig Blynyddol Tiwb Tryledu 2006-2024 – Brynbuga a Woodside**




*Mae'r llinell doredig yn dangos lefel amcan cymedrig blynyddol o 40µg/m$^3$

**Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer monitro lefelau llygredd?**

Nid yw diddymu'r AQMA yn golygu y bydd Cyngor Sir Fynwy yn rhoi'r gorau i fonitro llygredd aer ym Mrynbuga. Rydym yn ymroddedig i barhau i fonitro ym Mrynbuga a hefyd ledled Sir Fynwy. Rydym hefyd yn ymroddedig i barhau ein gwaith i ostwng lefelau llygredd ledled y Sir.

**Pam ydym yn ymgynghori os nad yw'r ardal bellach yn ateb yr angen am AQMA?**

Ysgrifennwn i'ch hysbysu o'n bwriad i ddiddymu'r AQMA ac i wahodd adborth pe credech fod unrhyw ffactorau eraill sydd angen eu hystyried. Os dymunwch roi unrhyw sylwadau am y cynigion hyn, e-bostiwch eich sylwadau atom i environmentalhealth@monmouthshire.gov.uk erbyn canol-dydd ar 1 Mawrth 2026 os gwelwch yn dda.

**I gael mwy o wybodaeth**
I weld Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2025, y Nodyn Cynnig a'r Drafft Orchymyn Diddymu ewch i'n gwefan – [Ansawdd aer – Sir Fynwy.]